



Meini Prawf Trothwy ar gyfer Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol

Cymeradwywyd gan y Cyngor ar 4 Chwefror 2015

Pwrpas y ddogfen hon

1. Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i achwynwyr a chofrestrwyr, ac i Bwyllgor Sgrinwyr ac Ymchwilio'r Cyngor Osteopathig Cyffredinol (GOsC), ynghylch y mathau o faterion a gaiff eu hystyried o dan weithdrefnau addasrwydd i ymarfer y GOsC.
2. Yn unol â'i amcan cyffredinol¹, nod gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer y GOsC yw diogelu'r cyhoedd. Ni fwriedir iddynt fod yn broses gyffredinol i ddatrys cwynion, nac i ddatrys anghydfodau sifil rhwng cofrestreion a chleifion.
3. Mae ymchwilio i honiadau yn drylwyr yn broses sy'n defnyddio llawer o adnoddau. Mae budd y cyhoedd yn ei gwneud hi'n ofynnol i adnoddau o'r fath gael eu defnyddio'n effeithiol i ddiogelu'r cyhoedd ac ni ddylid eu dargyfeirio i ymchwilio i faterion nad ydynt yn peri pryder.
4. Mae'r GOsC o'r farn bod y dull hwn yn ymateb cymesur i nifer y cwynion y mae'n eu derbyn, ac mae'n gyson â'r egwyddor o 'reoleiddio priodol' a hyrwyddir gan yr [Awdurdod Safonau Proffesiynol](#).
5. Mae'r GOsC, mewn ymgynghoriad â'i randdeiliaid, gan gynnwys cynrychiolwyr y cyhoedd a chleifion, wedi llunio'r 'meini prawf trothwy' hyn.
6. Bydd y meini prawf hyn yn arwain y Sgrinwyr wrth benderfynu a roddir pŵer gan Ddeddf 1993 i ymdrin â chwyn os gwelir bod rheswm da drosti², a byddant yn arwain y Pwyllgor Ymchwilio wrth benderfynu a oes 'achos i'w ateb' ai peidio.³

Y meini prawf trothwy

7. Dywed Deddf Osteopathiaid 1993 mai 'Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol' yw 'ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safon sy'n ofynnol gan osteopath cofrestredig'.⁴
8. Mae'n dweud hefyd y dylid ystyried methiant i gydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth yn y Cod Ymarfer ond ni fydd, ynddo'i hun, yn gyfystyr ag Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol.⁵

¹ Amcan cyffredinol y Cyngor Osteopathig Cyffredinol wrth arfer ei swyddogaethau yw diogelu'r cyhoedd (Adran 1(3A) Deddf Osteopathiaid 1993, a fewnosodir gan adran 5(2) o, a pharagraff 3 o'r Atodlen i, Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015).

² Adran 20(6)(a) o Ddeddf Osteopathiaid 1993

³ Adran 20(9)(c) o Ddeddf Osteopathiaid 1993 Gweler hefyd Canllawiau Gwneud Penderfyniadau Pwyllgor Ymchwilio'r GOsC, Awst 2018.

⁴ Adran 20(1)(a) a (2).

⁵ Adran 19(4).

9. Cafodd y trothwy ar gyfer a yw cwyn neu honiad yn gallu bod yn gyfystyr ag Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol ei bennu gan yr Uchel Lys yn achos Spencer v y Cyngor Osteopathig Cyffredinol:¹

A yw'r honiad yn deilwng o'r gwarth moesol a'r cyhoeddusrwydd sy'n deillio o ganfyddiad o ymddygiad proffesiynol annerbyniol?

10. Gan gymhwyso'r trothwy hwn, mae materion nad ydyn nhw'n gallu bod yn gyfystyr ag Ymddygiad Proffesiynol Annerbyniol fel arfer, ac felly nad ydynt yn cael eu cyfeirio at y Pwyllgor Ymddygiad Proffesiynol gan amlaf, yn cynnwys:

<p>a. Cwynion am gymryd nodiadau a chadw cofnodion yn unig</p>	<p>Yn absenoldeb y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. ' anghymhwystra neu esgeulustod lefel uchel'; neu ii. tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio â deddfwriaeth llywodraethu gwybodaeth berthnasol megis Deddf Diogelu Data 1998 (ac unrhyw ddeddfwriaeth ddilynol neu ddiwygio)
<p>b. Cwynion nad ydynt yn dod o fewn rhesymau statudol adran 20 o Ddeddf Osteopathiaid 1993</p>	
<p>c. Cwynion blinderus, gan gynnwys lle mae'r achwynydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. yn methu dro ar ôl tro â nodi'r union faterion y mae ef neu hi am gwyno amdany'n nhw; ii. yn newid sylwedd y gŵyn yn aml neu'n ceisio codi materion newydd yn barhaus; neu iii. yn ymddangos ei fod wedi cyflwyno'r gŵyn i gythruddo neu darfu ar y cofrestrydd, a dim rheswm arall 	
<p>d. Cwynion sydd wedi'u gwneud yn ddiennw ac na ellir eu gwirio fel arall</p>	
<p>e. Cwynion lle mae'r achwynydd yn gwrthod cymryd rhan a darparu tystiolaeth a lle na ellir gwirio neu brofi'r honiad fel arall</p>	

¹ [2013] 1 WLR 1307, [2012] EWHC 3147 (Gweinyddu), ym mharagraffau 25 a 28 o'r dyfarniad

<p>f. Cwynion sy'n ymwneud ag anghydfodau rhwng cofrestreion a chleifion ynghylch ffioedd neu gostau triniaeth</p>	<p>Ar yr amod nad oes honiad o anonestrwydd neu fwriad i dwyllo</p>
<p>g. Cwynion sy'n:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. ceisio ailagor materion sydd wedi bod yn destun proses tribiwnlys cyflogaeth neu achos sifil eisoes; ii. ceisio rhagdybio neu ddylanwadu ar ganlyniad achosion rheoleiddiol neu sifil eraill; neu iii. yn perthyn yn fwy priodol o fewn awdurdodaeth rheoleiddiwr arall (e.e. yr Awdurdod Safonau Hysbysebu) a dylent fod wedi'u gwneud i'r rheoleiddiwr hwnnw 	
<p>h. Cwynion sy'n gyfystyr â gwahaniaeth barn broffesiynol</p>	<p>Ar yr amod bod y farn:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. yn cael ei derbyn fel barn briodol a chyfrifol gan gorff cyfrifol o osteopathiaid sy'n fedrus yn y maes ymarfer penodol hwnnw ac sy'n gweithredu'n gyfrifol; ac ii. yn cael ei dal yn rhesymol ac yn gallu gwrthsefyll dadansoddiad rhesymegol
<p>i. Cwynion sy'n ymwneud ag anghydfodau cyflogaeth</p>	
<p>j. Cwynion sy'n ymwneud ag anghydfodau cytundebol, gan gynnwys trefniadau ar gyfer prydlesu eiddo a chyfleusterau</p>	
<p>k. Cwynion sy'n ymwneud ag anghydfodau busnes, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. defnyddio enwau parth gwe neu enwau masnachu neu rai sy'n swnio'n debyg; ii. 'dwyn cleifion'; a iii. materion sy'n deillio o chwalu perthynas pennaeth/cyswllt 	<p>Ar yr amod nad oes honiad o dorri cyfrinachedd cleifion neu faterion diogelu data</p>

l. Cwynion am fywyd personol unigolyn cofrestredig (gan gynnwys materion sy'n codi o achos ysgariad)	Oni bai bod y gŵyn yn ymwneud ag ymddygiad neu drais camdriniol, neu ymddygiad sy'n dwyn anfri ar y proffesiwn
m. Cwynion heb unrhyw oblygiadau diogelu'r cyhoedd ond sy'n cael eu gwneud am ddim rheswm heblaw bod yr achwynydd yn ymwybodol bod y parti arall i anghydfod yn unigolyn cofrestredig (e.e. anghydfodau am ffiniau rhwng cymdogion)	
n. Y troseddau gyrru canlynol: i. torri hysbysiadau parcio a hysbysiadau tâl cosb; a ii. cosb benodedig (a chosb benodedig: cynnig amodol) am droseddau moduro	Ar yr amod nad yw cyffuriau neu alcohol yn gysylltiedig â'r drosedd ac nad oes unrhyw broblemau iechyd posibl mewn perthynas â'r unigolyn cofrestredig
o. Cosb o dan gynllun tocyn cosb trafndiaeth gyhoeddus	

Hanes y fersiwn

Teitl y ddogfen	Awdur y ddogfen	Fersiwn	Dyddiad	Newidiadau a wnaed
Meini prawf trothwy ar gyfer ymddygiad proffesiynol annerbyniol	Adran Reoleiddio	1	Chwefror 2015	
Meini prawf trothwy ar gyfer ymddygiad proffesiynol annerbyniol	Adran Reoleiddio	1.2	Mehefin 2021	Mae Canllawiau Gwneud Penderfyniadau'r Pwyllgor Ymchwilio y cyfeirir atynt yn nhroednodyn 3 fel Hydref 2013 wedi'u diweddarau i Ganllawiau Gwneud Penderfyniadau Pwyllgor Ymchwilio Awst 2018.